IOPC Independent Office for Police Conduct

# Cyfranogiad mewn digwyddiadau allanol
Datganiad safbwynt 2026

## Cyflwyniad

Mae gan IOPC ddyletswydd statudol i sicrhau hyder y cyhoedd yn y system cwynion am yr heddlu. Mae cyfranogiad staff mewn digwyddiadau allanol — unrhyw ddigwyddiad lle nid ni yw trefnydd y digwyddiad hwnnw — yn ffordd bosib o gyflawni'r amcan hon, er mwyn gwneud ein gwaith yn fwy hygyrch, yn fwy dealladwy, ac yn fwy ymddiriedus i bawb. Gall cyfranogiad staff mewn digwyddiadau allanol hefyd olygu risgiau gweithredol ac enw da i IOPC, felly mae'n bwysig bod cyfranogiad o'r fath yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n ofalus.

Mae'r datganiad safbwynt hwn yn nodi'r pwrpas a'r disgwyliadau ar gyfer cyfranogiad staff mewn digwyddiadau allanol, a sut mae ymgysylltiad o'r fath yn cefnogi ein dyletswyddau, ein gwerthoedd a'n cyfrifoldebau statudol.

## Cyd-destun cyfreithiol a pholisi

O dan adran 10 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* , mae gennym ddyletswydd statudol i sicrhau hyder y cyhoedd yn y system cwynion am yr heddlu. Bydd ein presenoldeb a'n ymgysylltiad mewn unrhyw ddigwyddiadau allanol yn cael eu pennu gan p'un ai dyma'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r ddyletswydd statudol hon.

Mae presenoldeb hefyd yn cael ei lywio gan ein hamcanion strategol , gwerthoedd sefydliadol a Chod Ymddygiad. Mae ein safonau gwasanaeth yn nodi ymrwymiad i sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bawb, a bod pawb yr ydym yn delio â yn cael eu trin â pharch a chwrteisi. Rydym yn credu mewn trin pob unigolyn yn deg ac yn ddiduedd; mae cynhwysiant yn un o werthoedd craidd IOPC, sy'n sail i'n holl waith. Mae hefyd yn bwysig bod ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, ac yn deg. Mae ein Polisi Gwrthdaro Buddiannau yn ei gwneud yn glir bod annibyniaeth yn hanfodol i hygrededd IOPC, ac yn cydnabod bod yn rhaid i IOPC gyflawni, a chael ei weld yn cyflawni, ein dyletswyddau cyhoeddus heb unrhyw ragfarn.

Mae gan IOPC rwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED, adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ). Mae'r PSED yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth arfer ein swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.[1] a'r rhai nad ydynt yn ei rannu, ac i feithrin cysylltiadau gwaith da rhwng gwahanol grwpiau. Un o'r ffyrdd rydym yn dangos cydymffurfiaeth â'r PSED yw trwy gwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb (EIAs), sy'n ein helpu i nodi a lliniaru — lle bo modd — effeithiau niweidiol posib ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal â dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb, creodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddyletswydd ar sefydliadau sector cyhoeddus sy’n gweithredu yng Nghymru i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni Safonau’r Iaith Gymraeg, mae IOPC yn cynnwys yr Iaith Gymraeg fel ystyriaeth ychwanegol yn ein Hasesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.

# Ein safbwynt

Gall cyfranogiad staff mewn digwyddiadau cyhoeddus, cymunedol a rhanddeiliaid helpu i sicrhau bod ein gwaith yn cyflawni ein dyletswydd statudol drwy ein galluogi i ddeall a bodloni anghenion y cymunedau rydym yn gwasanaethu. Mae hefyd yn dangos ein ymrwymiad i degwch a thryloywder ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r broses cwyno.

Er mwyn galluogi cyflawni ein dyletswydd statudol, mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau, unigolion a sefydliadau, ac rydym yn gwerthfawrogi'r holl adborth rydym yn derbyn gan randdeiliaid. Nid yw ein presenoldeb mewn digwyddiadau yn golygu ein bod yn cymeradwyo barn na safbwyntiau trefnwyr na chyfranogwyr. Mae'n bwysig ein bod ni bob amser yn aros yn annibynnol ac yn ddiduedd. Rydym yn cydnabod bod rhai digwyddiadau yn dod â phobl neu safbwyntiau ynghyd lle gallai eraill anghytuno â nhw. Gall ein rhanddeiliaid ddal safbwyntiau gwahanol ac weithiau gwrthwynebol. Nid yw hyn yn golygu ein bod yn cytuno â phopeth mae nhw'n dweud, ond trwy ymgysylltu â nhw, rydym yn gallu defnyddio eu hadborth i lywio ein gwaith, pan yn berthnasol.

Gall IOPC benderfynu awdurdodi cyfranogiad staff mewn digwyddiad allanol pan fyddai cyfranogiad o'r fath, ym marn IOPC, yn:

- hyrwyddo’r nod o sicrhau hyder y cyhoedd yn y system cwynion am yr heddlu.
- hyrwyddo'r nod o sicrhau bod gwasanaethau IOPC yn hygyrch i bawb; a/neu
- hyrwyddo diwylliant gwaith cynhwysol a chefnogol i staff IOPC.

[1] Fel yr amlinellir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

Ni fydd IOPC yn awdurdodi cyfranogiad staff mewn digwyddiad allanol pan fyddai cyfranogiad o'r fath, ym marn IOPC, yn:

- tanseilio annibyniaeth IOPC, neu beryglu gallu IOPC i gyflawni, a chael ein gweld yn cyflawni, ein dyletswyddau cyhoeddus yn rhydd o unrhyw ragfarn; a/neu
- peryglu ymrwymiad IOPC i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a thrin pob unigolyn yn deg ac yn ddiduedd.

Wrth benderfynu a ddylid awdurdodi cyfranogiad staff mewn digwyddiad allanol, bydd IOPC yn ystyried holl amgylchiadau'r digwyddiad dan sylw, a'r graddau y bydd presenoldeb staff IOPC yn y digwyddiad yn hyrwyddo'r dibenion a nodir uchod. Yn hynny o beth, mae ffactorau perthnasol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- natur y digwyddiad dan sylw (gan gynnwys ei gynulleidfa arfaethedig, maint y digwyddiad, lleoliad y digwyddiad, ac ati).
- natur cyfranogiad staff IOPC yn y digwyddiad (beth fyddent yn ei wneud, graddfa eu cyfle i ymgysylltu â'r gymuned, ac ati).
- y gost sy'n gysylltiedig â chyfranogiad IOPC yn y digwyddiad.
- unrhyw risgiau gweithredol ac enw da sy'n gysylltiedig â chyfranogiad staff IOPC yn y digwyddiad.
- a yw'r digwyddiad yn gwasanaethu cymuned sydd â lefel hanesyddol o ymgysylltiad isel â’r broses cwynion am yr heddlu, neu ymddiriedaeth a hyder ynddi.

Wrth benderfynu a ddylid awdurdodi cyfranogiad staff mewn digwyddiad allanol, mae'n bwysig bod IOPC yn ystyried goblygiadau cydraddoldeb cyfranogiad. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel y canlynol:

- Mae ystyriaethau cydraddoldeb bob amser yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn ein cynllunio a'n prosesau gwneud penderfyniadau.
- Ni fydd angen cwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn ar gyfer cyfranogiad staff IOPC ym mhob digwyddiad allanol. Fodd bynnag, lle, o ystyried natur y gweithgaredd, ei effaith bosib a'r risgiau cysylltiedig, mae IOPC yn ystyried bod angen Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn, bydd IOPC yn cofnodi ei ystyriaeth o oblygiadau cydraddoldeb cyfranogiad yn y digwyddiad hwnnw.

Mae mwy o fanylion wedi'u nodi yn y Cwestiynau Cyffredin, y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r datganiad safbwynt hwn.

Cyhoeddwyd ym Mis Awst 2026

**© IOPC 2026**

This is licensed under the Open Government Licence v3.0
except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn
mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb